facebook.com/yescymru
post@yescymru.org
#Annibyniaeth
#IndyWales
@yescymru

Pam Annibyniaeth?

Mae'n well gyda ni ail-gyflwyno'r cwestiwn a gofyn - 'pam lai?'. Mae canrifoedd o reolaeth San Steffan wedi golygu bod Cymru yn un o'r gwledydd tlotaf yng ngorllewin Ewrop, yr unig wlad sydd heb filltir o reilffordd drydanol! Mae ein hanghenion yn cael eu hanwybyddu yn Llundain, lle cawn ein gweld fel rhanbarth, nid fel gwlad.

YesCymru

Mae Yes Cymru yn ymgyrchu dros Gymru annibynnol. Rydym yn fudiad llawr gwlad, heb gysylltiad ag unrhyw blaid wleidyddol.

Credwn ei bod hi'n bryd i bobl Cymru gymryd rheolaeth dros ein dyfodol fel cenedl annibynnol sy'n llywodraethu ei hunan.

Gallwn fod yn wlad hyderus sy'n cynrychioli ei hun ar lwyfan y byd.

Rydyn ni'n ddigon mawr, ac mae **gennym** y doniau, y creadigrwydd a'r adnoddau i sefyll ar ein traed ein hunain. Mae'n bryd i Gymru gamu ymlaen.

Cymryd Rhan

Mae ein grwpiau lleol yn cwrdd yn rheolaidd i drefnu digwyddiadau ac ymgyrchoedd sy'n edrych ar yr hyn y gallai Cymru annibynnol fod, a sut y byddwn yn cyrraedd yno.

Os ydych chi'n chwilfrydig ynghylch sut y bydd annibyniaeth yn creu cymdeithas well, fwy ffyniannus a mwy cyfartal i bawb sy'n galw Cymru'n gartref, neu os ydych chi eisiau helpu i weld hynny'n digwydd, yna cymerwch ran - **yes.cymru/grwpiau/**

Ymunwch â Ni

Ymaelodwch i fod yn rhan o'r unig fudiad sy'n ymgyrchu dros annibyniaeth i Gymru.

yes.cymru/ymaelodi